



Pennaeth / Headteacher: Miss N Downes
Ffôn / Tel: (01443) 670 319
E:-Bost / E-Mail: admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru

22/06/2026

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Hoffem eich hysbysu nad ydym, ar hyn o bryd, wedi derbyn unrhyw wybodaeth gan Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf (RCT) ynghylch cau'r ysgol oherwydd y tywydd eithafol a ragwelir. Felly, bydd yr ysgol yn parhau ar agor fel arfer.

Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n ofalus ac yn eich hysbysu ar unwaith pe byddem yn derbyn unrhyw ddiweddariadau neu gyfarwyddiadau gan yr Awdurdod Lleol.

Yn y cyfamser, hoffem rannu rhywfaint o ganllawiau pwysig yn seiliedig ar gyngor Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn ystod cyfnodau o dywydd poeth:

- Sicrhewch fod eich plentyn yn dod â **photel ddŵr** i'r ysgol fel y gallant aros wedi'u hydradu drwy'r dydd.
- Dylai plant wisgo **dillad ysgafn addas** a dod â **het haul** i'r ysgol
- Gofynnwn yn garedig i chi roi **eli haul cyn i'ch plentyn ddod i'r ysgol**; gall plant ddod ag eli haul gyda nhw os oes angen ei ail roi yn ystod y dydd
- Byddwn yn **cymryd camau yn yr ysgol i gadw'r ystafelloedd dosbarth yn oer**, gan sicrhau awyru digonol a chyfyngu ar weithgareddau awyr agored.
- Bydd **gweithgareddau awyr agored yn cael eu cyfyngu neu eu haddasu yn unol â'r tywydd** er mwyn diogelwch y disgyblion.
- Bydd disgyblion yn cymryd **seibiannau rheolaidd mewn manau cysgod ac yn yfed dŵr yn aml**.
-

Mae iechyd, diogelwch a lles ein disgyblion a'n staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchaf i ni. Diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth barhaus.

Diolch yn fawr

N.Downes